# LIC25-62

## BWYD, CYMRU

## CYNHYRCHION A REOLEIDDIR, CYMRU

### BWYDYDD NEWYDD

# Pennu statws awdurdodi: awdurdodi defnydd newydd a chydgrynhoi'r defnydd presennol o *Isomaltooligosaccharide* fel bwyd newydd

### Nodyn egluro

*(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)*

Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru yn arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 12 o Reoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd (EUR 2015/2283).

Mae'n awdurdodi'r defnydd o *Isomaltooligosaccharide* (a elwir hefyd yn *oligo-isomaltose*) fel bwyd newydd mewn un ar bymtheg o gategorïau bwyd newydd: hufen iâ a phwdinau llaeth; coffi a the 'instant'; melysyddion; cacennau; crwst (pastai neu darten); cacennau crwst; grawnfwydydd brecwast; *condiments* a *relishes;* grefi a sawsiau sawrus; pwdinau â gelatin; cynnwys pastai ffrwythau; jam ffrwythau ac ati; iogwrt; diodydd llaeth; byrbrydau o starts, tatws, grawn, neu flawd; sawsiau a phethau i'w rhoi ar bwdinau; atchwanegiadau bwyd i bobl 10 oed a hŷn. Mae telerau'r awdurdodiad a'r amodau, y gofynion a'r fanyleb y mae'r bwyd newydd wedi'i awdurdodi oddi tanynt wedi'u nodi yn yr Atodlen.

Mewn perthynas â'r defnyddiau newydd a awdurdodwyd, cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

Mae'r penderfyniad hwn hefyd yn cydgrynhoi ac yn disodli yr awdurdodiad a roddwyd i roi *Isomaltooligosaccharide* ar y farchnad, a phob defnydd awdurdodedig o'r bwyd newydd hwn sydd ar hyn o bryd, gan ddisodli'r awdurdodiad presennol a oedd, cyn y penderfyniad hwn, wedi cael effaith yn unol â rheoliad 23 (arbedion a darpariaeth drosiannol: cyffredinol) o Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoledig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Throsiannol) 2025. Nid oes

unrhyw newidiadau i gwmpas y defnyddiau awdurdodedig presennol, ond mae'r geiriad yn cael ei ddiweddaru a'i egluro, gan gynnwys:

- mae'r categori bwyd “fruit juices” wedi'i newid i “fruit-based drinks” er mwyn osgoi anghysondeb â diffiniadau Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013;
- Mae'r categori bwyd “foods intended to meet the expenditure of intense muscular efforts, especially for sportsmen (including isotonic drinks)” yn cael ei ddiweddaru i gyfeirio at “sports people”;
- Mae'r categorïau bwyd “cereals bars” a “breakfast cereal bars” wedi'u cyfuno mewn categori cyfunol o’r enw “cereal bars”;
- Mae'r lefelau uchaf yr amodau pan ganiateir defnyddio'r bwyd newydd wedi’i newid i gael ei fynegi ar ffurf "% w/v" (canran pwysau/cyfaint) ar gyfer hylifau a "% w/w" (canran pwysau/pwysau) ar gyfer cynnyrch sydd ddim yn hylifau.

---

# Penderfyniad

**Cymhwyso a dod i rym**

1. Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 13eg Hydref 2025.

**Dehongliad**

2. Mae unrhyw ymadrodd a ddefnyddiwyd yn y penderfyniad hwn ac sy’n cael eu defnyddio yn Rheoliad (EU) Rhif 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd, yn rhannu’r un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliad hwnnw.

**Pennu statws awdurdodi *Isomaltooligosaccharide***

3. Mae *isomaltooligosaccharide* wedi'i awdurdodi fel bwyd newydd i'w roi ar y farchnad yng Nghymru, ac i'w ddefnyddio yn, neu ar, y categorïau bwyd a bennir yn yr Atodlen, yn unol â'r amodau, y gofynion a'r fanyleb a nodir yn yr Atodlen.

4. Mae'r penderfyniad hwn yn cydgrynhoi ac yn disodli'r awdurdodiad presennol ar gyfer *Isomaltooligosaccharide*.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2025

# ATODLEN

<table>
<tr><th rowspan="2">Bwyd newydd awdurdodedig</th><th colspan="2">Yr amodau y gellir defnyddio'r bwyd newydd oddi tanynt</th><th rowspan="2">Gofynion labelu penodol ychwanegol</th><th rowspan="2">Diogelu data</th></tr>
<tr><td>Categori bwyd penodedig</td><td>Uchafswm lefelau<br>(% w/v hylifau)<br>(% w/w ddim yn hylifau)</td></tr>
<tr><td rowspan="8">Isomaltooligosaccharide</td><td>Diodydd ysgafn sy’n cynnwys lefelau is o egni</td><td>6.5% w/v</td><td rowspan="8">1. Dynodiad o’r bwyd newydd ar label sydd angen ei gynnwys ar y bwyd yw:<br><br>“Isomaltooligosaccharide”<br><br>2. Rhaid i ddynodiad y bwyd newydd ar y label ddweud bod Isomaltooligosaccharide yn ffynhonnell glwcos.<br><br>3. Rhaid labelu ychwanegiad bwyd sy'n cynnwys Isomaltooligosaccharide gynnwys datganiad sy’n dweud na chaiff plant dan 10 oed fwyta’r atchwanegiad bwyd.<br><br>Rhaid cyflwyno'r wybodaeth am fwyd yn unol â darpariaethau</td><td rowspan="8">Mae'r ddarpariaeth diogelu data yma’n berthnasol i’r defnydd o Isomaltooligosaccharide yn y categorïau bwyd canlynol yn unig:<br><br>• hufen iâ, pwdinau cynnyrch llaeth;<br>• te a choffi ‘instant’;<br>• melysyddion;<br>• cacennau;<br>• crwst (pastai neu darten);<br>• cacennau crwst;<br>• grawnfwydydd brecwast;<br>• condiments, relishes, grefi, sawsiau sawrus;<br>• pwdinau â gelatin;</td></tr>
<tr><td>Diodydd egni</td><td>5.0% w/v</td></tr>
<tr><td>Bwydydd a fwriedir ar gyfer gwaith cyhyrol dwys, yn enwedig ar gyfer pobl sy’n gwneud chwaraeon (gan gynnwys diodydd isotonig)</td><td>6.5% w/w<br><br>6.5% w/v</td></tr>
<tr><td>Diodydd wedi’i seilio ar ffrwythau</td><td>5% w/v</td></tr>
<tr><td>Llysiau wedi'u prosesu; sudd llysiau</td><td>5% w/v</td></tr>
<tr><td>Diodydd ysgafn eraill</td><td>5% w/v</td></tr>
<tr><td>Bisgedi</td><td>20% w/w</td></tr>
<tr><td>Bariau grawnfwyd</td><td>25 % w/w</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Melysion caled | 97 % w/w | Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cygor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (EUR 2011/1169) sy'n berthnasol i wybodaeth y mae’n rhaid ei gynnwys am fwyd. | • cynhwysion pastai ffrwythau;<br>• jam ffrwythau ac ati;<br>• iogwrt;<br>• diodydd llaeth;<br>• byrbrydau o starts, tatws, grawnfwyd, blawd;<br>• sawsiau a phethau i’w rhoi ar bwdinau;<br>• atchwanegiadau bwyd fel y maen nhw’n cael eu diffinio yn Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) 2003, ac eithrio atchwanegiadau bwyd i blant o dan 10 oed<br>Mae eu cynnwys yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol berchnogol a data gwyddonol a ddiogelir yn unol ag Erthygl 26 o Reoliad (EU) 2015/2283.<br><br>Ymgeisydd: BioNeutra North America Inc., 9608 25 Avenue NW. Edmonton, Alberta T6N 1J4. Canada.<br><br>Yn ystod y cyfnod o ddiogelu data, awdurdodir y defnydd o *Isomaltooligosaccharide* o fewn y categorïau bwyd rhestredig i'w roi ar y farchnad, yng Nghymru, gan |
| | Melysion meddal/bariau siocled | 25 % w/w | | |
| | Prydau bwyd amgen ar gyfer rheoli pwysau (fel bariau neu gynnyrch sy’n seiliedig ar laeth) | 20% w/w | | |
| | hufen iâ, pwdinau cynnyrch llaeth | 8% w/w | | |
| | te a choffi ‘instant’ | 10% w/w | | |
| | melysyddion | ≤100% w/w | | |
| | Cacennau | 20% w/w | | |
| | crwst (pastai nei darten) | 20% w/w | | |
| | Cacennau crwst | 15% w/w | | |
| | Grawnfwydydd brecwast | 10% w/w | | |
| | *Condiments*, *relishes*, grefi, sawsiau sawrus | 10% w/w | | |
| | Pwdinau â gelatin | 15% w/w | | |
| | Cynhwysion tarten ffrwythau | 15% w/w | | |
| | Jam ffrwythau ac ati | 50% w/w | | |
| | Iogwrt | 2.5% w/w | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Diodydd Llaeth | 5% w/v | | BioNeutra North America Inc. oni bai bod ymgeisydd dilynol yn derbyn awdurdodiad ar gyfer y bwyd newydd heb gyfeirio at y dystiolaeth wyddonol berchnogol neu'r data gwyddonol a ddiogelir yn unol ag Erthygl 26 o Reoliad (EU) 2015/2283 neu gyda chytundeb BioNeutra North America Inc.<br><br>Bydd y data yn peidio â chael ei ddiogelu ar ddiwedd 12fed Hydref 2030. |
| | Byrbrydau o starts, tatws, grawnfwyd, blawd | 5% w/w | | |
| | Sawsiau a phethau i’w rhoi ar bwdinau | 50% w/v | | |
| | Atchwanegiadau bwyd fel y maen nhw’n cael eu diffinio yn Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) 2003, ac eithrio atchwanegiadau bwyd i blant o dan 10 oed | <100% w/w | | |

## Manyleb

**Powdr:**

- Hydoddedd (dŵr) (%): > 99
- Glwcos (% sail sych): ≤ 5.0
- Isomaltose + DP3 i DP9 (% sail sych): ≥ 90
- Lleithder (%): ≤ 4.0
- Lludw sylffedig (g/100 g): ≤ 0.3
- Metelau trwm:
  - Plwm (mg/kg): ≤ 0.5
  - Arsenig (mg/kg): ≤ 0.5

**Surop:**

- Solidau sych (g/100 g): > 75

- Glwcos (% sail sych): ≤ 5.0
- Isomaltose + DP3 i DP9 (% sail sych): ≥ 90
- pH: 4 - 6
- Lludw sylffad (g/100 g): ≤ 0.3
- Metelau trwm:
    - Plwm (mg/kg): ≤ 0.5
    - Arsenig (mg/kg): ≤ 0.5